OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 3100

# Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006

## RHAN 2

PANELAU

**Aelodaeth o'r Panelau**

**5.**—(1) Mwyafswm nifer y personau y caniateir eu penodi i banel yw pump.

(2) Rhaid i banel gael ei gynghori:

(a) gan weithiwr cymdeithasol o fewn ystyr "social worker" yn Rhan IV o'r Ddeddf Safonau Gofal gyda chymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol;

(b) gan ymarferydd meddygol cofrestredig ag arbenigedd perthnasol mewn gwaith mabwysiadu.

(3) Pan fo'r panel yn credu fod hynny'n briodol, caiff ei gynghori gan

(a) Cynghorydd Cyfreithiol â gwybodaeth ac arbenigedd mewn deddfwriaeth fabwysiadu;

(b) Unrhyw berson arall y mae'r panel yn ystyried fod ganddo arbenigedd perthnasol o ran y penderfyniad sy'n cael ei ystyried.

(4) Pan fo'r penderfyniad cymhwysol sy'n cael ei adolygu'n benderfyniad i ddatgelu, mae'n rhaid i'r panel gynnwys o leiaf ddau berson sy'n dod o fewn rheoliad 4(3)(a).

(5) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol —

(a) penodi i gadeirio panel berson a chanddo'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gadeirio panel; a

(b) yn achos panel a gyfansoddwyd i adolygu penderfyniad ar addasrwydd, penodi un o aelodau'r panel yn is-gadeirydd i weithredu fel cadeirydd os yw'r person a benodwyd i gadeirio'r panel yn absennol neu os yw swydd y cadeirydd yn wag.

(6) Rhaid peidio â phenodi person i banel—

(a) os yw'r person hwnnw'n aelod o banel mabwysiadu'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol;

(b) os yw'r person, pan fo'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol yn awdurdod lleol, yn gyflogedig neu wedi bod yn gyflogedig gan yr awdurdod hwnnw yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd cyn y dyddiad y cafodd y penderfyniad cymhwysol ei wneud, yn eu gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd neu os yw neu os yw wedi bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw;

(c) os yw'r person, pan fo'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol yn gymdeithas fabwysiadu gofrestredig, yn un o gyflogeion neu ymddiriedolwyr yr asiantaeth honno, neu os yw wedi bod yn un ohonynt yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd cyn y dyddiad y cafodd y penderfyniad cymhwysol ei wneud;

(ch) os yw'r person hwnnw yn berthynas i berson sy'n dod o dan is-baragraff (a), (b) neu (c);

(d) os yw'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol wedi lleoli plentyn i'w fabwysiadu gyda'r person hwnnw o fewn y ddwy flynedd diwethaf;

(dd) os oedd y person hwnnw wedi'i gymeradwyo fel darpar fabwysiadydd o fewn y ddwy flynedd diwethaf gan yr asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol; neu

(e) os yw'r person hwnnw yn adnabod y ceisydd yn bersonol neu yn rhinwedd ei broffesiwn.

(7) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae "cyflogedig" ("*employed*") yn cynnwys bod yn gyflogedig p'un ai am daliad neu beidio a ph'un ai o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau neu fel gwirfoddolwr; a

(b) mae person ("*person A*") yn perthyn i berson arall ("person B") os yw person A—

(i) yn aelod o aelwyd person B, neu'n briod â pherson B neu'n bartner sifil i berson B;

(ii) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd person B; neu

(iii) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd person y person y mae person B yn briod ag ef neu hi neu y mae person B wedi ffurfio partneriaeth sifil ag ef neu hi;